GIG

Sefydliad Cenedlaethol
dros Ragoriaeth Glinigol

# Dacryosystorhinostomi endosgopig

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Chwefror 2005

Gwybodaeth o Arweiniad Ymyriadau 113

**Dacryosystorhinostomi endosgopig**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Chwefror 2005

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Archebu Cyhoeddiadau'r Adran Iechyd; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y rhif cyfeirnod N0818. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0817. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG113guidance). Gellir cael copïau o Linell Archebu Cyhoeddiadau'r Adran Iechyd hefyd, rhif cyfeirnod N0816.


## National Institute for Clinical Excellence

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk



ISBN: 1-84257-886-3

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Chwefror 2005
Cysodwyd gan Icon Design, Eton
Argraffir yn ôl y galw



© Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Chwefror 2005. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r wybodaeth hon | 4 |
| Ynglŷn â dacryosystorhinostomi endosgopig | 5 |
| Beth y mae NICE wedi'i benderfynu? | 8 |
| Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi | 9 |
| Gwybodaeth bellach | 10 |

# Ynglŷn â’r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddosbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn dacryosystorhinostomi endosgopig. Nid yw'r wybodaeth hon yn ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu – dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar ba un a yw dacrosystorhinostomi endosgopig yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio fel triniaeth arferol ar gyfer cyflyrau penodol yn ymwneud â’r llygaid (gweler tudalen 5).

Er mwyn llunio’r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau o ba mor ddiogel yw dacryosystorhinostomi endosgopig a pha mor dda y mae’n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy’n cynrychioli gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a’r cleifion a’r gofalwyr yr effeithir arnynt gan yr arweiniad hwn.

Mae’r arweiniad hwn yn rhan o’r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar ‘ymyriadau’ (gweler ‘Gwybodaeth bellach’ ar dudalen 10).

## Ynglŷn â dacryosystorhinostomi endosgopig

Fel arfer, bydd y dagrau sy’n golchi’r llygaid yn draenio i ffwrdd drwy system sy’n rhedeg o gornel y llygad i du mewn y trwyn. Os oes rhwystr yn y system hon (fel arfer yn yr hyn a elwir yn lacrymonasol neu ddwythell ddagrau), gall y llygad ddechrau dyfrio’n barhaol. Gall heintiau ddigwydd hefyd os bydd dagrau yn dechrau sefyll am na allant ddraenio i ffwrdd.

Er mwyn dadflocio’r ardal, rhoddir cynnig ar glytiau gwasgu cynnes a thylino yn gyntaf. Weithiau hefyd, bydd yn bosibl agor y ddwythell ddagrau drwy ei stilio.

Os na fydd y dulliau hyn yn gweithio a bod y symptomau yn effeithio ar fywyd bob dydd y person, efallai y bydd llawdriniaeth yn ddewis. Nod dacryosystorhinostomi endosgopig, sef y weithdrefn yr edrychodd NICE arni, yw gwneud cysylltiad sy’n dargyfeirio heibio’r ardal lle mae’r rhwystr fel y gall y dagrau ddraenio’n syth i’r trwyn. Caiff y claf anesthetig lleol ac yna caiff offer llawfeddygol eu rhoi drwy’r trwyn. Gwneir y cysylltiad fel arfer drwy ddefnyddio laser neu wres. Mae’n rhedeg rhwng y trwyn a’r sach ddagrau sydd wrth ben uchaf y system draenio dagrau. Weithiau, caiff tiwb silicon ei osod er mwyn cryfhau’r cysylltiad.

Mae'r llawdriniaeth safonol ar gyfer rhwystr yn y dwythell ddagrau yn golygu agor yr ardal yn hytrach na gweithio o du mewn y trwyn.

## Pa mor dda y mae'n gweithio

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Mewn un astudiaeth, roedd dacryosystorhinostomi endosgopig yn llwyddiannus mewn tri chwarter y cleifion a gafodd y weithdrefn. Flwyddyn ar ôl cael y weithdrefn, nid oedd gan ychydig dros hanner (59%) y bobl a gafodd y weithdrefn symptomau megis llygaid dyfrllyd.

Mewn astudiaeth arall, roedd y weithdrefn yn llwyddiannus mewn tua 9 allan o 10 o gleifion. Lluniwyd yr astudiaeth hon i gymharu canlyniadau defnyddio laser gyda chanlyniadau defnyddio offer sy'n defnyddio gwres. Roedd y weithdrefn ychydig yn fwy llwyddiannus mewn pobl wrth ddefnyddio laser, ond roedd y canlyniadau'n agos iawn.

Mewn astudiaeth arall a oedd yn edrych ar ganlyniadau mewn pobl gyda chyflwr arbennig a elwir yn dacryostenosis, nid oedd gan 65 allan o 78 o gleifion symptomau ymhen 1 flwyddyn ar ôl cael y weithdrefn. Mewn dacryostenosis, mae'r system sy'n draenio'r dagrau wedi culhau, gan ei gwneud yn fwy anodd i'r dagrau ddraenio i ffwrdd.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd yr arbenigwyr fod dacryosystorhinostomi endosgopig yn cael ei ddefnyddio gan feddygon ac ymddengys bod y siawns y bydd yn llwyddiannus yn debyg i lawdriniaeth safonol. Ond, gallai'r ardal wella'n gyflymach gyda'r weithdrefn newydd.

## Risgiau a phroblemau posibl

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Mewn astudiaethau a edrychodd ar dacryosystorhinostomi endosgopig, nid oedd yn ymddangos fod cleifion yn cael llawer o broblemau o ganlyniad i'r weithdrefn. Cafodd rhai cleifion ychydig o waedu. Nid oedd problemau yn fwy nac yn llai tebygol wrth ddefnyddio laser. Mewn un astudiaeth a edrychodd ar 78 o gleifion a gafodd y weithdrefn, ni chafodd unrhyw un waedu na haint wedyn.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd yr arbenigwyr fod haint yn bosibl ar ôl y weithdrefn. Hefyd, gallai meinwe craith ffurfio lle defnyddiwyd y laser, ac roedd hyn yn golygu y byddai'r weithdrefn yn llai tebygol o weithio.

## Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?

Mae NICE wedi ystyried y dystiolaeth ar dacryosystorhinostomi endosgopig. Mae wedi argymell pan fydd meddygon yn ei ddefnyddio ar gyfer pobl sydd â'r problemau a gaiff eu disgrifio uchod yn ymwneud â'r llygaid, dylent sicrhau:

- bod y claf yn deall yr hyn mae'n ei olygu ac yn cytuno (rhoi caniatâd) i gael y driniaeth, a
- bod canlyniadau'r weithdrefn yn cael eu monitro.

Mae NICE wedi dweud hefyd ei bod yn bwysig bod meddygon s'n cynnal y weithdrefn hon yn cael eu hyfforddi. Mae Coleg Brenhinol yr Offthalmolegwyr a Chymdeithas Otorhinolaryngolegwyr Prydain – Llawfeddygon Pen a Gwddf wedi cytuno i gynhyrchu safonau hyfforddi ar gyfer meddygon.

## Sylwadau eraill gan NICE

Dywedodd NICE nad oedd effeithiau defnyddio tiwb silicon i gryfhau'r cysylltiad yn glir eto. Nododd hefyd fod y dystiolaeth yr edrychodd arni yn ymwneud ag oedolion ac nad yw ei arweiniad yn cwmpasu defnyddio'r weithdrefn mewn plant ifanc sydd â llygaid dyfrllyd.

# Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai fod eich meddyg wedi cynnig dacryosystorhinostomi endosgopig i chi. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod y weithdrefn yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Er hynny, dylech ddeall manteision a risgiau dacryosystorhinostomi endosgopig cyn i chi gytuno i gael y weithdrefn. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai fod rhai o'r rhain wedi'u disgrifio uchod.

# Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn ar dacryosystorhinostomi endosgopig ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG113guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Archebu Cyhoeddiadau'r Adran Iechyd ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0816. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am broblemau yn ymwneud â'r llygaid, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da (ffoniwch 0845 46 47), neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk).

Dyddiad: Chwefror 2005